**Atodiad 2**

**Adolygiad Strategol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru o Strwythur Cyflog ac Amodau Athrawon ac Arweinwyr yng Nghymru**

| Argymhelliad | Derbyn neu beidio | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| ARGYMHELLIAD 12<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod y gofyniad ar gyfer cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl (paragraff 20.5 DCAAY(C) 2024-2025) yn cael ei ehangu trwy ychwanegu:<br><br>neu lefelau ychwanegol sylweddol cyfwerth o gyfrifoldeb ac atebolrwydd mewn meysydd allweddol o'r ysgol. | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| ARGYMHELLIAD 13<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai paragraff 20.3 ac Adran 3, paragraff 54, DCAAY(C) 2024-2025 gael eu diwygio i nodi na ddylai lwfansau CDA3 gael eu dyfarnu am fwy na dwy flynedd. | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| ARGYMHELLIAD 14<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod Adran 3, paragraff 51 DCAAY(C) 2024-2025 yn cael ei ddisodli gan:<br>Dylai CDA1 a CDA2 gael eu dyfarnu i athrawon yn | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| y swyddi penodedig yn y strwythur staffio ac yn unol â'r gwerth ariannol a nodir yn y polisi cyflog yn unig.  Pan ddyfernir CDAau o'r fath i athrawon rhan-amser, byddant yn cael eu talu ar sail pro rata ar yr un gyfran â chontract rhan-amser yr athro neu, gyda chytundeb yr athro rhan-amser a'r cyflogwr, byddant yn cael eu talu'n llawn os bydd yr athro'n ymgymryd â'r dyletswyddau llawn sy'n gysylltiedig â'r lwfans. | | |
| ARGYMHELLIAD 15<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai paragraff 20.4 DCAAY(C) 2024-2025 gael ei ymestyn i gynnwys cyfrifoldebau bugeiliol neu les a diogelu plant. | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| ARGYMHELLIAD 21<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod DCAAY(C) (paragraff 51.10) yn cael ei diwygio i gysylltu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon ac arweinwyr â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| ARGYMHELLIAD 24<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| DCAAY(C) yn cael ei hail-lunio, i gynnwys hyperddolenni i ganllawiau allweddol ynglŷn â’r wybodaeth a gynhwysir yn adran statudol y ddogfen. | | ymgynghori ar y newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| ARGYMHELLIAD 26<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru adolygu ar fyrder y ffordd y caiff deddfwriaeth cydraddoldeb ei monitro a'i hadrodd ar lefel ysgol ac awdurdod lleol, ac ystyried a oes angen newidiadau i DCAAY(C) a pholisïau cyflog ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb. | Derbyniwyd mewn egwyddor ar 9 Ebrill 2024. | Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thimau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i adolygu pa wybodaeth sydd ar gael eisoes/neu a allai fod ar gael ar lefel ysgol neu awdurdod lleol a sut y gallem gryfhau'r broses adrodd. Mae rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau. |